

## Ffair Nadolig

Cynhelir Ffair Nadolig flynyddol Capel Bethlehem yn y festri am 6.30 o'r gloch, nos Fawrth, Rhagfyr 1. Bydd croeso cynnes i bawb. Ceir rhagor o fanylion yn nes ymlaen.

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Tachwedd 15:** Cynhelir oedfaon am 10.00 a 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Dydd Mawrth, Tachwedd 10:** Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

**Nos Fawrth, Tachwedd 10:** Cynhelir Cymdeithas Undebol Llanberis yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch yng nghwmni Annette Bryn Parri, Deiniolen.

**Nos Wener, Tachwedd 13:** CIC am 7.00 o'r gloch.

**Sul, Tachwedd 15:** Gwasanaethir am 10.00 a 5.30 o'r gloch gan Andrew Settattree. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Tachwedd 15:** Ni fydd oedfa.

## Y mis nesaf - Deiniolen

### Tachwedd 8

5.00 p.m. - Mr John Roberts

### Tachwedd 15

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

### Tachwedd 22

5.00 p.m. - Mr Robert Morris

### Tachwedd 29

5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Ll Hughes

### BETHLEHEM

**Dydd Sul, Tachwedd 1:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon.

### CARMEL

**Nos Iau, Tachwedd 12:** Y Gymdeithas yn Jerusalem Bethesda am 7.00 o'r gloch. Sgwrs gan Alun Pritchard: 'Dŵr i'r Bobl'.

**Nos Wener, Tachwedd 13:** Cynhelir 'Dwylo Prysor' am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Tachwedd 8:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mrs Mererid Mair Williams, Caernarfon.

### CYNLLUN EFE

**Nos Lun, Tachwedd 9:** Y Cyfarfod Blynyddol yng Nghapel y Rhos, Llanrug am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Gwener, Tachwedd 13:** Bydd y Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.



## Y mis nesaf - Llanberis

### Tachwedd 8

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

### Tachwedd 15

10.00 a.m. - Andrew Settattree  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Andrew Settattree

### Tachwedd 22

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

### Tachwedd 29

10.00 a.m. - Mr Ifor Glyn  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg W

## Heddwch

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 657: Dydd Sul, 08 Tachwedd, 2015

## Dal i gofio

dal i ddiodeff mewn gwahanol rannau o'r byd.

Gofid mawr, ond nid synod yw gweld mai felly y mae. Gofid gan fod pob math o ryfela'n dangos methiant pobl i gydfyw gan barchu hawliau ei gilydd. Ond nid syndod gan mai mewn byd o bechod yr ydym yn byw, ac mewn byd o'r fath mae brwydro a rhyfela yn rhwym o ddod. Nid ein bod i fodloni ar hynny wrth gwrs. Rydym i fod i wneud popeth a allwn i osgoi rhyfel ac i sicrhau fod cenhedloedd yn cydfyw yn heddychol ac yn gyfiawn yn eu hymwneud â'i gilydd. Pobl sydd o blaid heddwch ddylem fod.

Ond mewn byd o'r fath, lle na chaiff ewyllys Duw'r parch llawn a dyladwy, mae rhyfela'n anochel. Fe ddywedodd Iesu y byddai rhyfeloedd gyda ni hyd ddiwedd y byd: 'Byddwch yn clywed am ryfeloedd a sôn am ryfeloedd; gofawch beidio â chyffroi, oherwydd rhaid i hyn ddigwydd' (Mathew 24:6).

Mae'n debyg mai H G Wells a soniodd gyntaf am y Rhyfel Mawr fel 'y rhyfel i roi diwedd ar bob rhyfel'. Buan iawn y gwelwyd nad oedd hynny'n wir. Trasiedi pethau yw bod cymaint o bobl yn credu fod modd i unrhyw ryfel ddatrys problemau mawr y byd. Yn sicr, nid trwy ryfel y mae dileu rhyfel. Gwrthodiad pobl o ffordd tangnefedd a chymod, a methiant pobl i weithredu'n gyfiawn at eraill sy'n bennaf cyfrifol am y rhyfeloedd sydd ac a fydd yn dal i'n poeni.

Tristwch mawr y Sul hwn yw fod yr hyn a gofir mor druenus o newydd bob blwyddyn. Gyda threigl y blynyddoedd fe ddylai'r digwyddiadau a roes fod i Sul y Cofio fynd ymhellach i blygion y gorffennol. Mae hynny'n wir wrth gwrs am gyflafan y Rhyfel Mawr ac erchyllterau mwy diweddar yr Ail Ryfel Byd. Mae'r bwch rhyngom a blynyddoedd y ddau Ryfel Byd yn mynd yn fwy a mwy. Prin iawn, iawn erbyn hyn yw'r bobl a oedd wedi eu geni cyn diwedd y Rhyfel Mawr, ac mae'r ffaith fod 70 o flynyddoedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd yn naturiol yn golygu fod niferoedd y bobl a fu'n byw trwy'r rhyfel hwnnw hefyd yn mynd yn llai a llai bob blwyddyn. Mae'r cyswllt uniongyrchol a'r profiad personol o flynyddoedd y ddau ryfel yn amlwg yn lleihau. Nid bod hynny'n golygu na ddylem ddal i gofio'r diodeffaint a fu, a'r colledion a brofwyd gan deuluoedd a chymunedau yn ein gwlad ni ac mewn cymaint o wledydd eraill ar draws y byd. Ond y gamp o hyd yw medru gwneud hynny heb ddyrchafu na chlodfori'r filitariaeth a fu'n gyfrifol am ladd a niweidio miliynau o bobl.

Ond wrth i'r ddau ryfel wneud eu lle yn y llyfrau hanes tristwch pethau yw fod y diodeffaint a'r lladd a ddaw gyda phob rhyfel yn parhau mor amlwg yn ein byd heddiw. Nid i ryw orffennol pell nac agos y perthyn y pethau hynny gan fod rhyfeloedd yn dal i fygwth gwledydd yr oes bresennol. Mae'r bomio a'r saethu'n parhau, a phobl yn

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Cynhelir oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

Gwasanaethir yn yr oedfa yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan Mr John Roberts, Llanfairpwll.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Geraint Roberts, Porthaethwy.

Cynhelir yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Ni fydd oedfa yn Nant Peris.

## Cofion

Dymunwn yn dda i bawb arall sy'n methu â dod i'r oedfaon ar hyn o bryd.

## Cyfarfod Blynyddol Efe

Estynnir croeso cynnes i chi i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cynllun Efe yng Nghapel y Rhos, Llanrug am 7.00 o'r gloch, nos yfory, nos Lun, Tachwedd 9.

Yn y cyfarfod hwn ceir adroddiad am waith y Cynllun dros y flwyddyn. Mae'n gyfle bob blwyddyn i ni ddiolch hefyd i Andrew ac i bawb sy'n cefnogi gwaith Efe mewn unrhyw ffordd.

Anodd credu fod oddeutu deng mlynedd ers i ni sefydlu Cynllun Efe yn y gobaith o gael gweithiwr i gefnogi cenhadaeth yr eglwysi ymhlith pobl ifanc a phlant yr ardal. Buom yn brysur ar y cychwyn yn cynllunio ac yn chwilio am arian cyn i Andrew Settatee gychwyn ei waith ddechrau Hydref 2008. Mae Andrew, felly, gyda ni ers mwy na saith mlynedd.

Ers deunaw mis, mae gan Gynllun Efe gytundeb â Trobwynt, mudiad tebyg i ni yn Llŷn ac Eifionydd, sy'n golygu fod Andrew ei rhannu ei amser rhwng y ddau fudiad. Adnewyddwyd y cytundeb hwnnw ddiwedd yr haf am gyfnod o dair blynedd arall.

Bydd croeso cynnes i chi i'r Cyfarfod Blynyddol. Bydd yn dda gweld cymaint â phosibl yn y cyfarfod nos yfory.

## Angladd

Cynhaliwyd angladd Mrs Myfanwy Davies, 5 Stryd yr Wyddfa, Llanberis yn Capel Coch ac yna ym Mynwent Llanrug ddydd Llun diwethaf, Tachwedd 2. Bu farw Mrs Davies yn Ysbyty Gwynedd ddydd Sul, Hydref 25, yn 89 mlwydd oed. Gwasanaethwyd yn y capel ac ar lan y bedd gan y Gweinidog a'r Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon. Mrs Bethan Holding oedd yr organydd.

Cydymdeimlwn â Gwenda, Elwyn a Sandra, Bedwyr a Lowri a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth o golli mam a mam yng nghyfraith a nain annwyl iawn.

Ganed Myfanwy yn Madog Terrace, Craigdinas, Llanddeiniolen. Bydd y mwyaftrif ohonom yn fwy cyfarwydd â'r fan honno dan yr enw 'Stabla'. Oddi yno, aeth y teulu i fyw i'r Waunfawr cyn iddi ddod i Gwm-y-glo at ei nain. Wedi priodi ag Owen Davies (Now Becar), fe gartrefodd yn Llanberis a magu teulu yn Stryd yr Wyddfa, lle'r arhosodd weddill ei hoes. Roedd yn wraig annwyl a thawel a bu'n gyfaill a chymdoges dda i'w chydabod i gyd. Bu'n aelod ffyddlon o'r eglwys yn Nant Padarn, a bu'r un mor ffyddlon yn yr oedfaon yn Capel Coch y blynyddoedd diwethaf hyn.

## Dechreuadau

Cynhelir cyfarfod arall yn y gyfres 'Dechreuadau' gyda'r Parchg Casi Jones yn festri Bethlehem, Talybont am 2.00 o'r gloch yfory, ddydd Llun, Tachwedd 9.

## Agor y Llyfr

Gweddich dros ymweliad cyntaf criw 'Agor y Llyfr' ag Ysgol Gwau Gynfi, Deiniolen fore Gwener, Tachwedd 13. Trefnir y gweithgaredd newydd hwn gan Andrew a Chynllun Efe.

## Cymdeithas Llanberis

Cynhelir cyfarfod cyntaf tymor newydd Cymdeithas Undebol Llanberis yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Fawrth, Tachwedd 10 yng nghwmni Annette Bryn Parri, Deiniolen.

Bydd croeso cynnes i bawb a ddaw i'r cyfarfod.

## CIC

Cynhelir cyfarfod nesaf CIC yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch, nos Wener, Tachwedd 13.

## Ffair Nadolig

Cynhelir Ffair Nadolig yn Capel Coch am 2.00 o'r gloch, ddydd Mawrth, Tachwedd 17 er budd Cronfa Cynnal a Chadw'r capel.

Bydd amrywiaeth o stondinau, ac arnynt nwyddau Nadolig. Bydd y byrddau gwerthu arferol ar gyfer bric-a-brac, llyfrau, cacennau ac ati.

Os oes gennych nwyddau ar gyfer y byrddau a'r hamperi, byddem yn falch iawn o'u cael gan y bydd pob rhodd yn help i sicrhau llwyddiant y Ffair.

Y pris mynediad yw £1, yn cynnwys paned a bisged. Ni fydd angen i blant dalu. Dowch os medrwch i gefnogi'r ymdrech.

## Cleifion

Os gwyddoch am unrhyw un o aelodau eglwysi'r Ofalaeth sydd yn yr ysbyty neu heb fod yn dda, a wnewch chi roi gwybod i ni os gwelwch yn dda. Byddwn yn falch o gael gwybod mor fuan â phosibl.

Diolch yn fawr iawn wrth gwrs i bawb sy'n ein helpu yn hyn o beth.